**Iwdas Isgariot**

Rhaid oedd i'r cwmni gwirion wrth dy fedr
I gadw'r cyfri ac i gasglu'r pres,
Ni hidiai Ioan ac ni faliai Pedr,
Rhaid oedd wrth aur i ddod â Duw yn nes:
Yr elusennau aml a odrai'r gist,
A'r Pasg a'i gwagiodd, gyda'i win a'i fwyd,
Ac ar y farchnad gwerthaist ti dy Grist
Gan wybod y dôi'n rhydd o'u magl a'u rhwyd.
Gresyn dy grogi cyn codi Mab y Dyn
A rhannu eilwaith win a bara croyw,
Y Groes yn codi'r brad oddi ar dy fin
A golchi d'arian brwnt yn berffaith loyw;
Gallaset fel Pedr wylo'n chwerw dost
A gweld y gist yn llawn ar Bentecost.

***Gwenallt***